TGAU

# CBAC TGAU
# DRAMA

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cwestiynau Cyffredinol am y Fanyleb

**C: Sut mae'r fanyleb hon yn cyfateb i egwyddorion a llinynnau Cwricwlwm i Gymru?**
A: Dyluniwyd y fanyleb hon i gyfateb i fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n cefnogi'r datganiadau o hyn sy'n bwysig, egwyddorion cynnydd, ac ystyriaethau penodol ar gyfer Drama. Mae'n gyfle i fewnblannu themâu trawsbynciol, sgiliau, a phrofiadau dysgu a amlinellir yn y Cwricwlwm. I weld mapio manwl, cyfeiriwch at Atodiad A yn y fanyleb.

**C: Sut mae'r cwrs wedi'i strwythuro o ran asesu?**
A: Mae'r cwrs yn gymhwyster llinol gyda dau asesiad di-arholiad ymarferol, Uned 1 (40%) ac Uned 2 (30%) ac yna arholiad ar sgrin yn Uned 3 (30%).

**C: Beth yw'r amcanion asesu a sut maen nhw wedi'u pwysoli?**
A:

AA1 (20%) Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio
AA2 (45%) Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio
AA3 (15%) Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.
AA4 (20%) Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau

**C: A all ymgeiswyr ailsefyll unedau os ydynt eisiau gradd well?**
A: Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol). Bydd cyfleoedd asesu ar gyfer Uned 3 ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

**C: Pryd fydd yr arholiadau ar gyfer pob uned ar gael?**
A: Bydd arholiadau Uned 3 ar gael yn flynyddol yn dechrau o haf 2027 ymlaen, yr un pryd a ddyfernir y cymhwyster TGAU llawn am y tro gyntaf.

**C: Beth yw'r raddfa graddio a'r broses ddyfarnu?**
A: Mae'r cwrs hwn yn defnyddio'r raddfa 8 pwynt A*-G draddodiadol. Mae'r dyfarnu'n dilyn prosesau safonol CBAC yn unol â gofynion rheoleiddiol.

**C: Beth yw'r oriau dysgu dan arweiniad a argymhellir ar gyfer y cwrs hwn?**
A: Mae'r fanyleb yn argymell 120-140 o oriau dysgu dan arweiniad, wedi'i lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

**C: A fydd yna Ddeunyddiau Asesu Enghreifftiol i helpu i gyflwyno'r fanyleb?**
A: Mae'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 ar gael o 19 Rhagfyr 2024 ar wefan CBAC TGAU Drama.  Mae'r rhain ar gael drwy'r Porth.

**C: A oes trefn addysgu orau posibl ar gyfer yr unedau hyn?**
A: Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau Uned 1 yn gynharach yn y cwrs (ar ddiwedd blwyddyn 10 er enghraifft), ond mae'n rhaid ei chyflwyno ar ddiwedd y cwrs. Rhaid cwblhau Uned 2 yn ystod y cyfnod asesu sydd wedi'i osod gan CBAC yn y flwyddyn olaf o astudio. Noder y caiff briffiau Asesiadau Di-arholiad eu cyhoeddi ar 1 Medi bob blwyddyn.


© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: A oes rhestr o derminoleg benodol y dylai dysgwyr fod yn ymwybodol ohoni?**
A: Mae rhestr o derminoleg yn Atodiad B o'r fanyleb wedi'i chynllunio i helpu athrawon i baratoi dysgwyr ar gyfer Uned 1, 2 a 3.

**C: Pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y Pecynnau Asesu?**
A: Cwestiynau Arholiad Enghreifftiol, manylion am y tasgau Asesiad Di-arholiad, cynlluniau marcio ar gyfer pob tasg, esboniad o'r amseriadau a disgwyliadau ar gyfer amodau dan reolaeth, cyngor ar y broses gynllunio, disgwyliadau marcio a chymedroli, amcanion asesu a chrynodeb ohonynt ar draws gwahanol dasgau.

## Uned 1: Cwestiynau am Ddyfeisio Theatr

**C: Sut ydw i'n uwchlwytho gwaith ymgeiswyr ar gyfer uned 1?**
A: Bydd gwaith ymgeiswyr, Asesiad Di-arholiad a asesir yn fewnol (Uned 1), yn cael ei huwchlwytho drwy IAMIS. Bydd eich Swyddog Arholiadau yn gallu cael mynediad i gylchlythyr yn nes at yr amser sy'n cynnwys cyfarwyddiadau am ddefnyddio IAMIS. Dylai'r holl waith ysgrifenedig, taflenni clawr, profforma rhaglen a ffurflen gymeradwyo gael eu huwchlwytho ynghyd â'r gwaith ymarferol. Mae canllawiau ar gael hefyd ar ein gwefan, gan gynnwys canllaw fideo cam wrth gam: e-Gyflwyno | CBAC.

**C: A oes nifer geiriau ar gyfer y Log Adfyfyriol?**
A: Nid oes cyfyngiadau ar sut y dylai'r Log Adfyfyriol gael ei gyflwyno; sy'n golygu nad oes unrhyw gyfrif geiriau, nac ychwaith unrhyw gyfyngiadau ynghylch y fformat caiff y log ei gyflwyno ynddo. Mae'r opsiynau fformatio yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, ryddiaith ysgrifenedig, cyflwyniad PowerPoint, flog, blog, llyfr lloffion ac ati.

**C: A fydd cefnogaeth marcio ar gyfer athrawon?**
A: Bydd. Bydd canllawiau pellach i gefnogi athrawon i farcio'r tasgau Asesiad Di-arholiad yn cael eu darparu'r flwyddyn hon.

**C: Ble gallaf ddod o hyd i Becynnau Asesu Uned 1 ac Uned 2?**
A: Mae'r pecynnau asesu ar gael ar y Porth. Gweler y ddelwedd isod am gyfarwyddiadau ar sut i addasu'r hidlyddion.




© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: Ble gallaf ddod o hyd i'r deunydd ysgogi ar gyfer Uned 1, a phryd y caiff ei chyhoeddi?**
A: Bydd yr ysgogiad yn cael ei ryddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi bob blwyddyn. Mae'r deunydd ysgogi ar gael ar y Porth, gweler y ddelwedd isod am gyfarwyddiadau ar sut i addasu'r hidlyddion. Bydd y deunydd ysgogi yn cael ei restru o dan 'Tasg Di-Arholiad' ac ar gael i'w lawrlwytho fel PDF.




**C: Mae gen i un ymgeisydd yn sefyll TGAU Drama – beth yw'r opsiynau ar gyfer sefyll Uned 1**?
A: Mae'n bosibl cofrestru ar gyfer TGAU Drama os mai dim ond un ymgeisydd sydd gennych sy'n sefyll y cymhwyster. Ar gyfer Uned 1, gan mai dau yw'r nifer lleiaf sy'n cael bod mewn grŵp, gall yr ymgeisydd weithio gydag ymgeisydd nad yw'n cael ei asesu, neu athro. Os yw eich ymgeisydd yn dymuno gweithio fel dylunydd, bydd yn rhaid i berfformwyr nad ydynt yn cael eu hasesu berfformio'r darn a ddyfeisiwyd fel bod modd asesu'r dyluniad mewn perfformiad.

**C: Pa adborth y gall athrawon ei ddarparu ar gyfer y gwaith ymarferol ac ysgrifenedig ar gyfer Uned 1?**
A: Rhaid i athrawon weld darn pob grŵp ar waith o leiaf tair gwaith ar wahanol adegau yn ystod y broses ddyfeisio er mwyn gallu dilysu'r gwaith. Hefyd, rhaid i athrawon weld un fersiwn drafft o'r log adfyfyriol ond nid oes hawl ganddynt i roi adborth ysgrifenedig cyn cyflwyno'r gwaith yn derfynol.

Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion yr asesiad, gan gynnwys y deunyddiau ysgogi a'r gridiau marcio. Gall athrawon gynghori ynghylch addasrwydd y dewis o ymarferwr/genre ar y cyd â'r ysgogiad a ddewiswyd. Gall athrawon gynghori hefyd ynghylch addasrwydd y theatr/gofod actio, cyfarpar technegol, amserlenni ymarfer, iechyd a diogelwch ac arferion gweithio. Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni ddylai athrawon gynnig arweiniad penodol na manwl o ran sut i wneud y gwelliannau hyn, gwneud penderfyniadau creadigol na chyfarwyddo. Ar ôl cwblhau'r gwaith a'i asesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

**C: A allai 6 actor, neu fwy na 4 dylunydd fod mewn grŵp?**
A: Yn anffodus, rhaid cadw'n llym at faint grwpiau. Y nifer uchaf o actorion mewn grŵp yw 5, a'r nifer uchaf o ddylunwyr yw 4.

**C: Ble gallaf gael gafael ar Ffurflen Gymeradwyo'r Ganolfan, Taflen Farciau a Profforma Rhaglen Uned 1?**
A: Gweler y gwaith papur perthnasol ar gyfer Uned 1 ar dudalennau 12-16 y Pecyn Asesu.



© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 2: Cwestiynau am Berfformiad o Destun

**C: Sut ydw i'n uwchlwytho gwaith ymgeisydd ar gyfer uned 2?**
A: Bydd gwaith ymgeiswyr, Asesiad Di-arholiad a asesir yn allanol (Uned 2), yn cael ei uwchlwytho drwy Surpass. Am ragor o wybodaeth, ewch i: e-Gyflwyno | CBAC.

**C: Sut ydw i'n arwain ymgeiswyr i ddewis testun priodol?**
A: Rhaid i'r testun a ddewisir fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewisir yn Uned 3. Yn ogystal, mae'n bwysig cofio sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei gyflwyno i amrywiaeth o destunau o wahanol gyfnodau amser a diwylliannau, a thestunau a berfformir mewn amrywiaeth o arddulliau.

**C: Mae gen i un ymgeisydd yn sefyll TGAU Drama – beth yw'r opsiynau ar gyfer sefyll Uned 2?**
A: Mae'n bosibl cofrestru ar gyfer TGAU Drama os mai dim ond un ymgeisydd sydd gennych sy'n sefyll y cymhwyster. Ar gyfer Uned 2, gan mai dau yw'r nifer lleiaf sy'n cael bod mewn grŵp, gall yr ymgeisydd weithio gydag ymgeisydd nad yw'n cael ei asesu, neu athro. Os yw eich ymgeisydd yn dymuno gweithio fel dylunydd, bydd yn rhaid i berfformwyr nad ydynt yn cael eu hasesu berfformio'r darn fel bod modd asesu'r dyluniad mewn perfformiad.

**C: A allai 6 actor, neu fwy na 4 dylunydd fod mewn grŵp?**
A: Rhaid cadw'n llym at faint grwpiau. Y nifer uchaf o actorion mewn grŵp yw 4, a'r nifer uchaf o ddylunwyr mewn grŵp yw 2.

**C: A allai dylunwyr o fewn grŵp o actorion gael eu hasesu yn yr un sgìl dylunio?**
A: Rhaid asesu bob dylunydd o fewn grŵp o actorion ar sgìl dylunio gwahanol. Er enghraifft, os oes dau ddylunydd o fewn grŵp o 4 actor, nid oes modd i'r ddau gael eu hasesu fel dylunydd goleuadau.

**C: A oes amser penodol y mae'n rhaid i ymgeiswyr dreulio ar eu darnau?**
A: Nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o amser y gall ymgeiswyr ei dreulio ar y gwaith o archwilio, creu a datblygu eu perfformiad/dyluniad o ddarn perfformio cyhoeddedig. Rhaid cyflwyno gwaith myfyrwyr i CBAC o fewn blwyddyn olaf y cwrs.

**C: Sut mae ymgeiswyr yn cael eu hasesu?**
A: Gweler tudalennau 4-8 y Pecyn Asesu Uned 2 am fanylion llawn a chanllawiau asesu.

**C: A ddylai pob grŵp yn fy nosbarth berfformio'r un testun?**
A: Nid oes angen i bob dysgwr yn y grŵp addysgu ddewis darn(au) o'r un testun perfformiad.

**C: A fydd unrhyw gosbau os yw'r ymgeisydd dan amser?**
A: Gall unrhyw beth sydd o dan amser yn sylweddol arwain at hunan-gosbi. Dylai canolfannau a dysgwyr hefyd nodi ei bod yn annhebygol y bydd marc sydd yn y bandiau marciau uwch yn cael ei roi ar gyfer gwaith sydd o dan amser yn sylweddol gan na fydd digon o dystiolaeth o ddatblygiad a/neu ymgysylltiad â'r gynulleidfa efallai.

**C: A oes terfyn amser uchaf ar gyfer perfformiadau?**
A: Cyfeirir at y terfynau amser uchaf yn y Canllawiau Addysgu. Ni fydd unrhyw beth dros y terfyn amser uchaf, a bennir yn ôl maint yn grŵp, yn cael ei ystyried yn ystod y broses farcio.

**C: Os nad yw'r viva yn cael ei hasesu, a fydd unrhyw gosb os nad yw'r ymgeisydd yn ei chwblhau?**
A: Os nad yw ymgeisydd dylunio yn cwblhau'r Viva, bydd hyn yn arwain at hunan-gosbi a bydd yn colli'r cyfle i gyflwyno ei ddyluniadau i'r arholwr.


© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Uned 3: Cwestiynau am Ddehongli Theatr

**C: A fydd y testunau gosod yn aros yr un fath â'r hen fanyleb?**
A: Bydd y testunau gosod yn y fanyleb newydd yr un fath â'r testunau gosod a astudiwyd yn yr hen fanyleb.

**C: Beth yw'r gweithiau gosod?**
A: Dylai canolfannau ddewis un opsiwn i'w astudio o'r rhestr isod:

- *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan*, William Shakespeare
- *Pethe Brau, Tennessee Williams*
- *Bryniau'r Glas-Atgofion,* Dennis Potter
- Wyneb, Benjamin Zephaniah
- Llewlanc, Zizou Corder, addasiad Marcelo Dos Santos
- *Cysgu'n Brysur, Bethan Marlow*
- *Un Bore Mawrth,* Alison Carr

**C: Sut mae'r arholiad wedi newid?**
A: Nid yw Uned 3 bellach yn arholiad papur. Mae'n arholiad 2 awr ar sgrin. Bydd yr arholiad yn dal i edrych ar un testun gosod allan o saith dewis. Bydd dysgwyr hefyd yn ymateb i theatr fyw, yr un fath â'r fanyleb bresennol. Fodd bynnag, bydd Adran B nawr yn cynnwys cwestiynau'n seiliedig ar un clip heb ei weld allan o bedwar genre: Naturiolaeth, Theatr Gerdd, Theatr Gorfforol, neu Theatr mewn Addysg.

**C: A fydd y clipiau theatr heb eu gweld yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg?**
A: Bydd ymgeiswyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael yr un mynediad at glip theatr heb ei weld Cymraeg ag ymgeiswyr sy'n astudio drwy'r Saesneg.

**C: A fydd ymgeisydd sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu dewis rhwng y clip Cymraeg a'r clip Saesneg ar ddiwrnod yr arholiad?**
A: Na. Bydd ymgeiswyr yn sefyll yr arholiad yn yr iaith y maent wedi'u cofrestru ar gyfer yr asesiad.

**C: A fydd adnoddau ar gael i helpu gyda'r testunau gosod?**
A: Bydd adnodd Dysgu Cyfunol ar gael ar gyfer pob testun gosod yn Uned 3. Gweler rhagor o wybodaeth ym[Adnoddau addasadwy RHAD AC AM DDIM i gefnogi ein cymwysterau Gwneud-i-Gymru].

**C: A allaf i ddefnyddio cynyrchiadau wedi'u ffrydio (e.e Digital Theatre+) ar gyfer ymateb i theatr fyw yn Uned 3?**
A: Dylai canolfannau wneud pob ymdrech i roi cyfle i ymgeiswyr weld theatr fyw. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, gall ymgeiswyr wylio ac adolygu fersiwn digidol o theatr fyw, cyn belled ei fod yn ddarn sydd wedi'i gomisiynu a'i gynhyrchu'n broffesiynol.

**C: A oes nifer awgrymedig o gynyrchiadau theatraidd y dylai ymgeiswyr ei wylio drwy gydol y cwrs?**
A: Dylai ymgeiswyr wylio o leiaf dau berfformiad (naill ai'n fyw neu wedi'u ffrydio).

**C: A oes rhaid i ymgeiswyr wylio perfformiad cyfan?**
A: Oes.



© WJEC CBAC Ltd 2025.

**C: A fydd y testunau gosod ar gyfer Uned 3 ar gael yn y Gymraeg, a lle fydd y rhain ar gael?**
A: Bydd y testunau gosod ar gael yn Gymraeg, ac ar gael ar y Porth. Cysylltwch â'ch swyddog arholiadau i fewngofnodi i'r Porth, neu e-bostiwch porth@cbac.co.uk am gefnogaeth.

**C: A oes angen i ymgeiswyr astudio dylunio ar gyfer Uned 3, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu hasesu fel actor yn Unedau 1 a 2?**
A: Rhaid i ymgeiswyr astudio dylunio, actio a chyfarwyddo wrth baratoi ar gyfer arholiad ar sgrin Uned 3, oherwydd gall cwestiynau sy'n canolbwyntio ar ddylunio, actio neu gyfarwyddo fod yn y papur.

**C: A fydd yr arholiad yn destun agored?**
A: Bydd yr arholiadau yn destun agored, sy'n golygu y caniateir i ymgeiswyr ddod â chopi glân o'r testun gosod yr astudir i mewn i'r arholiad.



© WJEC CBAC Ltd 2025.